# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb 2025 – 2029

## [Fersiwn Drafft]

Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Pembrokeshire Coast
National Park

## Cynnwys


Ein Hymrwymiad a'n Dyletswyddau .................................... 2

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Y Ddyletswydd Gyffredinol ..................................................... 3

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Y Dyletswyddau Penodol ....................................................... 3

Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? ........................................................................... 4

Dyletswyddau Ychwanegol ................................................ 4

Prif-ffrydio a Monitro Cyflawni ........................................... 7

Sut y Gwnaethom Ddatblygu ein Hamcanion a Chynllun.... 7

Crynodeb o'n Hamcanion.................................................. 9

Y Parc - Tirwedd i Bawb .................................................. 11

Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol ......... 17

Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol ........................................................................... 20

Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad........... 23


Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch, cysylltwch â: gwybodaeth@arfordirpenfro.org.uk

## Ein Hymrwymiad a'n Dyletswyddau

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025-29 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) yn disgrifio'r modd y bwriadwn barhau â'n hymrwymiad i gydraddoldeb a'r rhwymedigaethau cyfreithiol a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cynllun hwn yn nodi Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i

- sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r Awdurdod yn cael eu trin â pharch, tegwch, ac urddas drwy ein diwylliant cynhwysol.
- gweithio i greu cymdeithas decach drwy hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da.
- cefnogi'r Parc i fod yn dirwedd i bawb, gan helpu mwy o bobl i fwynhau, profi a helpu i ofalu am rinweddau arbennig y Parc.
- gweithio ar y cyd ag eraill i gynorthwyo i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Y Ddyletswydd Gyffredinol

Fel corff cyhoeddus, rhaid i ni fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, rhaid inni roi sylw dyladwy i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill.
- Wrth ystyried sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill, mae angen inni hefyd:
    - Dileu neu leihau hyd yr eithaf unrhyw anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.
    - Bodloni'r anghenion hynny sydd gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl eraill.
    - Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan y bobl hynny'n anghymesur o isel.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Y Dyletswyddau Penodol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau oedd yn cyflwyno'r Dyletswyddau Penodol i Gymru fis Mawrth 2011 i gefnogi perfformiad gwell o'r Ddyletswydd Gyffredinol. O dan y Dyletswyddau Penodol mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyflawni'r canlynol:

- Pennu Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb yn y modd y mae penderfyniadau'r Awdurdod yn effeithio arnynt.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau os gwelir bod yr effaith yn sylweddol.
- Cyhoeddi gwybodaeth ar fonitro cyflogaeth yn flynyddol.
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol ymhlith ein gweithwyr, a defnyddio ein gweithdrefnau arfarnu staff i glustnodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ein gweithwyr.
- Pennu amcan cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau lle clustnodir bod gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.
- Ystyried cynnwys amodau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ein prosesau caffael.

## Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd eu nodweddion gwarchodedig. Dyma'r term a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i nodi'r mathau o bethau sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cael eu trin a gall olygu y gall pobl ddioddef gwahaniaethu. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae’r term ‘croestoriadedd’ yn cydnabod ac yn archwilio sut y gall cyfuniad o fwy nag un nodwedd warchodedig a ffactorau economaidd-gymdeithasol arwain at neu barhau â mathau gwahanol o wahaniaethu neu anfantais.[1]

## Dyletswyddau Ychwanegol

### Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Thlodi Plant

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sydd wedi'i deddfu yng Nghymru yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod pan fydd yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae ein proses asesu integredig yn ystyried yr effeithiau posibl ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae deddfwriaeth Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi’i diwygio i gymryd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r Ddyletswydd i gael strategaeth Tlodi Plant bellach yn cael ei chyflawni drwy gynlluniau llesiant perthnasol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan Gynllun Llesiant Sir Benfro amcan ar “Weithio gyda’n cymunedau i leihau anghydraddoldeb a gwella llesiant” ac mae gan y cynllun brosiect sy’n canolbwyntio ar leihau tlodi ac anghydraddoldeb. Mae’r Grŵp Tlodi yn gyfrifol am gyflawni elfennau Tlodi ac Anghydraddoldebau Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r grŵp wedi llunio strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023. Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at gyflawni’r camau gweithredu o fewn y cynllun gweithredu'r strategaeth.

Mae Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn nodi ei bod yn ofynnol i

[1] CCHD – Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru’n Decach? Tachwedd 2023

ni, o dan Ran 1 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gyhoeddi amcanion i drechu tlodi plant. Rydym wedi nodi isod yn yr adran gryno pa rai o'n Hamcanion Cydraddoldeb sydd hefyd yn gweithredu fel ein Hamcanion Tlodi Plant.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae'r Cynllun hwn yn ystyried y pum ffordd o weithio:

**Hirdymor:** Mae'r Cynllun hwn yn clustnodi camau fydd yn gymorth i roi sylfaen gref ar gyfer newid tymor hwy. Mae pob un o'n hamcanion yn dod o dan nodau tymor hwy.

**Atal:** Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni ymyriadau fydd yn ceisio atal problemau rhag digwydd na gwaethygu o ran y Parc, y gwasanaethau a ddarperir gennym, ac o ran ein gweithlu.

**Integreiddio:** Mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn wedi'u hintegreiddio o fewn ein Cynlluniau Cyflawni a'n fframweithiau sicrwydd i ategu prif ffrydio'r gwaith o gyflawni a monitro. Mae ein Hamcanion Llesiant yn cymryd i ystyriaeth Cynllun Llesiant Sir Benfro a'r asesiad o effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gydraddoldeb.

**Cydweithio:** O brofiad rydym yn gwybod mai dim ond drwy gydweithio ag eraill y gellir llwyddo i gyflawni newid cadarnhaol. Mae ein hamcanion a'r camau gweithredu cysylltiedig yn cydnabod y rôl bwysig y bydd cydweithio â phartneriaid yn ei chwarae.

**Cynnwys:** Dim ond drwy gynnwys pobl a gwrando arnynt yn rhagweithiol y gellir cyflawni ein Hamcanion. Defnyddir ymgysylltu i sicrhau ein bod yn datblygu'r ymyriadau cywir i chwalu rhwystrau i gefnogi ystod mwy amrywiol o bobl i weithredu dros natur neu brofi'r awyr agored a rhyfeddodau'r Parc. Byddwn yn cynnwys staff wrth lunio camau gweithredu yn y gweithle.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod fel corff cyhoeddus i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at y saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae gan yr Awdurdod gyfres o Amcanion Llesiant sy'n cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant. Er bod rhai o'r Nodau Llesiant yn ymwneud yn benodol â chydraddoldeb, mae'n bwysig nodi y gall yr amcanion cydraddoldeb a gynhwysir yn y cynllun hwn ategu'r Nodau Llesiant ehangach. Er enghraifft, bydd y camau sy'n chwalu rhwystrau i gynorthwyo mwy o bobl i weithredu dros fyd natur yn cyfrannu nid yn unig at 'Gymru mwy cyfartal', ond at 'Gymru iachach', 'Cymru gydnerth,' 'Cymru lewyrchus ' a 'Chymru o gymunedau cydlynus'.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae gan yr Awdurdod Strategaeth ar wahân i Hyrwyddo'r Gymraeg, a rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n bwysig ystyried y berthynas

rhwng cydraddoldeb a'r Gymraeg. Er enghraifft, o ran anabledd mae angen i ni ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sydd ag anghenion cyfathrebu hygyrch ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn cynnwys y nod canlynol: “Bod lleisiau siaradwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu clywed a bod eraill yn gwrando arnynt a bod rhagor yn cael ei wneud i hyrwyddo mynediad at y Gymraeg ymhlith cymunedau ethnig leiafrifol ym meysydd addysg, dysgu’r iaith, y gweithle a gweithgareddau cymunedol.” Mae defnyddio’r dull cynnig rhagweithiol hefyd yn bwysig o ran cyflawni ein prosiectau sy’n canolbwyntio ar iechyd a chynhwysiant.



## Y Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 mae’n rhaid i’r Awdurdod bellach gydymffurfio â’r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. Mae'r Ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn modd cymdeithasol gyfrifol. Mae cyfleoedd i’r camau gweithredu yn y maes hwn alinio â gweithgareddau ar weithredu dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru ar gaffael. Mae'r Awdurdod yn datblygu Strategaeth Caffael Gymdeithasol Gyfrifol, a bydd y strategaeth hon yn cryfhau gwaith ehangach yr Awdurdod ar gydraddoldeb a chaffael.



## Prif-ffrydio a Monitro Cyflawni

O brofiad rydym wedi clustnodi, er mwyn cyflawni camau gweithredu o fewn y cynllun cydraddoldeb strategol a rhoi amlygrwydd iddynt, bod angen eu hintegreiddio i fodelau cyflawni a pherfformiad ehangach ar gyfer ein gweithgareddau cynllunio corfforaethol. O ganlyniad, mae'r camau gweithredu a glustnodir yn y cynllun hwn yn cael eu prif ffrydio drwy'r canlynol:

- Y Cynlluniau Cyflawni sy'n ategu ein Hamcanion Llesiant a'n Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ehangach a'r adroddiadau perfformiad cysylltiedig.
- Yr adroddiad monitro sicrwydd a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol.

Bydd y camau ymlaen yn erbyn y cynllun hwn yn cael eu cyflwyno yn flynyddol yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Noder y gall fod angen camau gweithredu eraill i gyflawni'r amcanion yn ystod cyfnod y cynllun, ac os felly, bydd y camau hynny yn cael eu clustnodi fel rhan o adolygiad blynyddol y Cynlluniau Cyflawni a'r adolygiad cyfnodol o Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod.

Bydd cwmpas cyflawni rhai o'r gweithgareddau yn dibynnu ar allu'r Awdurdod i sicrhau cyllid allanol ychwanegol.

## Sut y Gwnaethom Ddatblygu ein Hamcanion a Chynllun

Fe wnaethom adolygu a nodi lle gallai ein hamcanion a'n cynlluniau cydraddoldeb gael yr effaith fwyaf trwy:

1. Ystyried perfformiad yn erbyn ein cynllun a'n hamcanion cydraddoldeb blaenorol.

2. Ystyried y dystiolaeth:
    - CCHD - Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? 2023.
    - Llesiant Cymru a'r Dangosyddion Cenedlaethol.
    - Tystiolaeth ac effeithiau a nodwyd fel rhan o asesiad effaith cydraddoldeb o Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol diwygiedig yr Awdurdod.
    - Asesiad Llesiant Sir Benfro.
    - Ymchwil a data ehangach sy'n berthnasol i ardal y Parc a gwaith yr Awdurdod. Gan gynnwys data Cyfrifiad 2021.
    - Perfformiad yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol.
    - Dadansoddiad o ddata recriwtio a gweithlu'r Awdurdod.
    - Tystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Benfro.

3. Ystyried yr adborth o'r ymgysylltu:
    - Arolwg ymgynghori  ar-lein rhanbarthol gyda chyrff cyhoeddus eraill.

- Adborth o weithgareddau ymgynghori eraill Traeth Mawr, Arolwg Cadair Olwyn y Traeth, Adroddiad Profiadau i Bawb, Arolwg Rhinweddau Arbennig Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol.
- Gweithdy gyda swyddogion allweddol yr Awdurdod.
- Adborth mewnol ac allanol.

4. Ystyried sut mae'r cynllun yn integreiddio â'n cynlluniau strategol a gweithredol eraill a chanlyniad unrhyw asesiadau integredig arnynt:
    - Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (a Dibenion Parc)
    - Cynllun Datblygu Lleol 2
    - Amcanion Llesiant, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig (gan gynnwys pethau y gellir eu cyflawni mewn Cynlluniau Cyflawni allai ategu'r gwaith o gyflawni'r amcanion).
    - Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.
    - Strategaeth Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol.
    - Tirweddau Dynodedig Cymru – Cynllun Gweithredu Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Rhagoriaeth.
    - Maniffesto Ieuenctid Sir Benfro, sy'n nodi meysydd i'w gweithredu arnynt
        - Grymuso Ieuenctid
        - Byw – gan gynnwys seilwaith, fforddiadwyedd, cymuned
        - Dysgu – Anelu at ysbrydoli, addysg natur, cefnogaeth
        - Gweithio – Cyfleoedd Gwaith, Mwy o hyfforddiant, cyflogau isel.

5. Ystyried cysylltiadau strategol a datblygiadau polisi

**Rhanbarthol**

- Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, yn enwedig ei ffrwd gwaith a strategaeth ar dlodi.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Benfro.
- Strategaeth Toiledau Sir Benfro.
- Datblygu Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer De Orllewin Cymru a'i rôl o ran cynllunio trafnidiaeth strategol.
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro.

**Cenedlaethol**

- Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Cynlluniau gweithredu a mentrau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb Llywodraeth Cymru:
    - Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
    - Cynllun Plant a Phobl Ifanc
    - Tasglu Hawliau Pobl Anabl
    - Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
    - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Cenedl Noddfa)

    - Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau
    - Strategaeth Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
    - Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru
    - Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg
    - Rhaglen Cydlyniant Cymunedol
    - Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru 2024-2028
    - Fframwaith Pontio Teg i Gymru sy'n anelu at roi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd tra hefyd yn ystyried tegwch cymdeithasol.
    - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol
    - Strategaeth Ddrafft Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2024-2034
    - Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru - ymrwymiad i roi cymorth i bawb 16-24 oed sy'n byw yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, cymorth i gael gwaith neu hunangyflogaeth.
- Cyflwyno Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cyflwyno'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Hefyd mae gan Lywodraeth Cymru Y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Gweler y ddogfen tystiolaeth ategol am ragor o wybodaeth am y modd yr oedd yr uchod wedi dylanwadu ar y gwaith o greu ein Hamcanion Cydraddoldeb. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r Asesiad Integredig ar gyfer y Cynllun.

## Crynodeb o'n Hamcanion

### 1. Y Parc – Tirwedd i Bawb

#### Nod Tymor Hir: Creu Parc sy'n Dirwedd i Bawb.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, a byddwn wedi dileu rhai rhwystrau i gael mynediad i'r Parc ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol. **[Amcan Tlodi Plant]**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn wedi datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sydd â budd cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb ac amddifadedd, yn enwedig plant a theuluoedd ifainc o ardaloedd difreintiedig. **[Amcan Tlodi Plant]**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gweithio ar y cyd a chydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid yn gymorth i'r tirweddau dynodedig fod yn dirweddau i bawb.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, mae'r Awdurdod drwy ei weithgareddau creu lleoedd yn cefnogi cynnydd yn y

nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yn ardal y Parc. **[Amcan Tlodi Plant]**

## 2. Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir: Mae ein gwasanaethau a'n prosiectau wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd staff, Aelodau a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi, a bydd ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ddylunio, caffael a darparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.

## 3. Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir: Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy'n gefnogol ac yn gynhwysol.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn wedi adolygu canlyniad yr adolygiad cyflogau a graddfeydd a'i ddadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac wedi datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb, os bydd angen.

## 4. Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

**Nod Tymor Hir: Bod ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod ac ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn yn creu cyfleoedd i'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein llywodraethiant a'n strwythurau ehangach i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau am y Parc ac am waith yr Awdurdod.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i Aelodau a Swyddogion i ystyried ystyriaethau cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gennym fecanweithiau ar waith i alluogi ystod eang o grwpiau a phobl i gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc.

## Y Parc - Tirwedd i Bawb

### Nod Tymor Hir: Creu Parc sy'n Dirwedd i Bawb.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, a byddwn wedi dileu rhai rhwystrau i gael mynediad i'r Parc ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Gall cael mynediad i'r Parc Cenedlaethol fod yn heriol i rai grwpiau oherwydd amrywiol rwystrau. Ymhlith y rhwystrau hyn mae materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, cost, diffyg cynrychiolaeth, pryderon diogelwch, rhwystrau ffisegol a diffyg cyfleusterau hygyrch a rhwystrau gwybodaeth.
- ✓ Mae'r Awdurdod eisoes wedi dechrau ar y gwaith yn y maes hwn, ond mae mwy i'w wneud. Ein dull o weithio yw targedu i ddileu rhwystrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n ymarferol o ran maint a chylch gwaith yr Awdurdod a chydweithio ag eraill i ddylanwadu ar faterion strategol megis trafnidiaeth.
- ✓ Dylai dulliau Twristiaeth Adfywiol ar gyfer Gwasanaethau a Chanolfannau Ymwelwyr yr Awdurdod ystyried cynhwysiant a hygyrchedd.

**Camau Gweithredu**

1. Datblygu Cynllun Mynd Allan yn yr Awyr Agored, yn canolbwyntio ar:
   - Darparu Gwasanaeth Cadair Olwyn Traeth ac Offer Symudedd.
   - Cyflwyno rhaglen wedi'u targedu o weithgareddau cerdded â chymorth, gwirfoddoli â chymorth ac ymgysylltu yn yr awyr agored.
   - Nodi cyfleodd i wella trwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i archwilio ein lleoliadau a'r ffordd rydym yn rhoi gwybod i bobl amdanynt.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Swyddog Iechyd a Llesiant.

2. Cyflawni gweithgareddau a phrosiectau sy'n ymwneud ag isadeiledd sy'n gwella dyluniad/ mynediad cynhwysol ar draws safleoedd yn y Parc. Bydd hyn yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o brosiect Traeth Mawr a chanlyniadau'r astudiaeth o feysydd parcio a'r blaenoriaethau a glustnodwyd fel rhan o'r astudiaeth hon.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

**Swyddogion Arweiniol:** Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu. Pennaeth Datgarboneiddio. Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

3. Adolygu ein rôl a’n hymgysylltiad â phartneriaid strategol gan gynnwys Cydbwyllgor Corfforaethol De Cymru i glustnodi’r ffordd orau i ni gefnogi a, lle bo’n ymarferol, helpu i gadw ac ehangu mentrau trafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc gan gynnwys opsiynau hygyrch a fforddiadwy.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ddatgarboneiddio.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Polisi Strategol. Pennaeth Twristiaeth Adfywiol.

4. Fel rhan o ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r canolfannau i gefnogi'r gwaith o ddarparu twristiaeth adfywiol, datblygu cynlluniau gweithredu ar gynhwysiant/ hygyrchedd. Yn ystod y cyfnod gweithredu, cynnal gweithgareddau i hyrwyddo’r gwersi a ddysgwyd (beth oedd wedi gweithio / sut y llwyddwyd i oresgyn heriau) gyda'r sector ehangach.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Gefnogi Twristiaeth Adfywiol drwy'r economi ymwelwyr.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Twristiaeth Adfywiol. Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

5. Datblygu ymgyrch wedi’i thargedu yn ystod y prif dymor i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd mynediad hawdd ar draws y Parc, gan gynnwys hyrwyddo’r cynllun cadeiriau olwyn traeth ac offer symudedd.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Gyfathrebu a Marchnata.

   **Amserlen:** 2025 - 2026

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu.

6. Hygyrchedd prif ffrwd fel elfen weladwy o frand marchnata APC drwy ddatblygu a chyflwyno cronfa o asedau ffotograffiaeth a fideo i arddangos Parc i bawb. Fel rhan o ddatblygu’r gwaith hwn, ymgysylltu â'r rhai yr ydym yn ceisio eu cynrychioli i sicrhau bod ein dulliau yn briodol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Gyfathrebu a Marchnata.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu.

7. Adolygu'r Cynllun Gweithredu ar y prosiect Profiadau i Bawb i ategu’r gwaith o ehangu ein hadnoddau cyfathrebu hygyrch. Adolygu pa mor hygyrch a chynhwysol yw ein hadnoddau cyfathrebu a dehongli i gynyddu cynrychiolaeth, amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd i gael profiad o’r Parc.

**Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Gyfathrebu a Marchnata.

**Amserlen:** 2025 - 2029

**Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn wedi datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sydd â budd cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb ac amddifadedd, yn enwedig plant a theuluoedd ifainc o ardaloedd difreintiedig.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Roedd dadansoddiad Clymblaid Dileu Tlodi Plant o ddata 2021/22 yn dangos mai Sir Benfro oedd y pumed sir â'r % uchaf o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru ar ôl ystyried costau tai ar 29.0%.[2]

- ✓ Mae gan yr Awdurdod brofiadau o gydweithio ag eraill i ddatblygu prosiectau wedi'u targedu. Gan gynnwys gweithio gyda MIND Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ar y prosiect Gwreiddiau at Adferiad, a gweithio gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar fel rhan o'r prosiect Y 1,000 Diwrnod Cyntaf.

- ✓ Wrth ddatblygu prosiectau mae'r gwaith yn seiliedig ar arweiniad y bobl gan gydnabod pa mor bwysig yw cael buddiolwyr i fod yn rhan o ddylunio'r prosiectau. Mae'n bwysig ein bod yn ymgorffori'r 5 cam at lesiant meddyliol yn ein gweithgareddau.

- ✓ Mae trafnidiaeth yn rhwystr mawr i rai grwpiau o bobl yn Sir Benfro gan eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd yn y Parc. Gall ein prosiectau, drwy ddarparu cludiant bws mini i weithgareddau, helpu i gael gwared ar y rhwystr hwn.

- ✓ Mae grwpiau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector amgylchedd, ac mae'n bwysig ein bod yn chwalu rhwystrau fel bod ystod mwy amrywiol o bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau adfer byd natur a theimlo perchnogaeth o'r gweithgareddau hynny.

**Camau Gweithredu**

1. Datblygu a sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau adfer byd natur sy'n rhoi cyfle i ystod ehangach o bobl gymryd rhan mewn gweithredu i gefnogi byd natur. Adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd i gael cyllid ar gyfer y prosiect Llwybrau oedd yn gysylltiedig â rhoi cymorth i wirfoddolwyr gynorthwyo â'r gwaith o waredu rhywogaethau ymledol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Adnoddau ac Ehangu ein Cyllid.

[2] Ystadegau Tlodi Plant - Dileu Tlodi Plant / Tlodi-Plant-AHC-amcangyfrifon-2015-2022_terfynol.xlsx (live.com)

**Amserlen:** 2025 - 2029

**Swyddogion Arweiniol:** Rheolwr Cyllid Allanol. Pennaeth Adfer Natur. Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

2. Defnyddio canlyniad yr ymarferiad mapio rhanddeiliaid i glustnodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cyswllt cymunedol/ cymorth i feithrin cysylltiadau a grymuso grwpiau allanol (gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o ran mynediad i gyfleoedd awyr agored/ byd natur neu sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol) i gynyddu mynediad a bod yn rhan o'r buddiannau i iechyd a lles yn y Parc.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad.

   **Amserlen:** 2025 - 2029 (Bydd rhywfaint o weithgaredd yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol)

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

3. Datblygu a chael cyllid ar gyfer prosiect olynol i Gwreiddiau at Adferiad gan weithio mewn partneriaeth â MIND Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad.

   **Amserlen:** 2025 - 2029 (Yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol)

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Arweinydd y Tîm Dysgu a Chynhwysiant.

4. Cyflawni'r prosiect Y 1,000 Diwrnod Cyntaf a defnyddio canlyniadau'r prosiect i ddatblygu rhaglen gymorth i deuluoedd ifanc a phlant. Gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n cynorthwyo teuluoedd a phobl yn Sir Benfro sy'n wynebu tlodi – sy'n gysylltiedig â gwaith Is-grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ar Strategaeth Tlodi yn Sir Benfro.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad. Monitro gan Fwrdd Gwasanaethau Sir Benfro o'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, Ein Strategaeth 2023.

   **Amserlen:** 2025 - 2029 (Yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol)

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Arweinydd y Tîm Dysgu a Chynhwysiant.

5. Datblygu fframwaith ar gyfer arolwg blynyddol o gyfranogwyr i dargedu cyfranogwyr rheolaidd yn ein gweithgareddau gwirfoddoli, prosiectau ac ati. Gydag arolwg electronig (Microsoft Forms) ac yna dull wedi'i deilwra i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth lle bo hynny yn fwy priodol. Gydag adroddiad blynyddol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei gynhyrchu yn amlinellu'r hyn ddywedodd pobl / beth fyddwn yn ei wneud a beth rydym wedi'i wneud a pham.

**Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

**Amserlen:** 2025 - 2026 (Datblygu a threialu – yn parhau ar ôl hyn).

**Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

6. Cyflwyno rhaglen o gyfleoedd ar draws ein gwaith allgymorth yn cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu Sgiliau Iaith Gymraeg.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Fywyd yn Sir Benfro. Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

7. Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc elwa o addysg awyr agored, gan gynnwys cyfleoedd i brofi, dysgu am y Parc a chymryd camau ymarferol i gefnogi'r Parc a'i Rinweddau Arbennig.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

8. Adolygu ein harlwy iechyd a lles i glustnodi rôl yr Awdurdod yn y dyfodol mewn ymateb i fframwaith Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol. Ystyried yr hyn a ddysgwyd o werthuso Prosiect Gorllewin Cymru 'Cerdded er Lles'. Ar ôl cwblhau'r adolygiad ac yn unol â'i argymhellion, archwilio cyfleoedd i ddatblygu prosiectau presgripsiynu cymdeithasol ar y cyd â darparwyr iechyd, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Cymdeithasol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Iechyd, Lles a Mynediad.

   **Amserlen:** 2025 - 2029 (Bydd rhywfaint o weithgaredd yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol)

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Swyddog Iechyd a Llesiant.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gweithio ar y cyd a chydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid yn gymorth i'r tirweddau dynodedig fod yn dirweddau i bawb.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Y ffordd orau o fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu rhag cael mynediad i'r Parc ac ymgysylltu â'r Parc yw drwy ddatblygu dulliau ac atebion ar y cyd.

- ✓ Mae'r Awdurdod, drwy'r Ymgynghorydd Strategol ar Ragoriaeth Llywodraethu, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, a Thirweddau Cymru eisoes yn gweithio i ddatblygu a chyflawni prosiectau cydweithredol sy'n cefnogi tirweddau

dynodedig i fod yn dirweddau i bawb.

**Camau Gweithredu**

1. Gweithio gyda Tirweddau Cymru, yr Ymgynghorydd Strategol ar Ragoriaeth Llywodraethu, Cynhwysiant ac Amrywiaeth a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflawni prosiectau cydweithredol sy’n cefnogi tirweddau dynodedig i fod yn dirweddau i bawb. Gyda ffocws arbennig ar:
   - Gwaith ar y cyd i ymgysylltu â phobl ifanc.
   - Gweledigaeth a rennir.
   - Ymatebion i’r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau gweithredu ehangach Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb.
   - Ymatebion i bontio teg sydd â’r nod o sicrhau bod y daith i sero net yn deg, ac ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.
   - Cryfhau cysylltiadau, megis â’r Mudiad Pride (Pride Cymru/ Pride Sir Benfro.)

   **Cyflawni/ Monitro:** Tirweddau Dynodedig Cymru – Cynllun Gweithredu a Monitro Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Rhagoriaeth. Adroddiad Monitro'r Fframwaith Partneriaeth. Bydd prosiectau partneriaeth a ddatblygwyd lle mai'r Awdurdod yw'r partner arweiniol yn cael eu hymgorffori mewn Cynlluniau Cyflawni perthnasol.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, mae'r Awdurdod drwy ei weithgareddau creu lleoedd yn cefnogi cynnydd yn y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yn ardal y Parc.

**Pam yr Amcan hwn**

✓ Mae darparu tai fforddiadwy yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd, yn parhau i fod yn fater a glustnodir ar lefel genedlaethol a lleol. Mae costau tai yn chwarae rhan mewn cyfraddau tlodi plant yn y sir.

**Camau Gweithredu**

1. Gweithredu polisi cynllunio i gefnogi’r gwaith o gyflawni targedau'r Awdurdod o ran tai fforddiadwy i'w hadeiladu dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Sicrhau cytundebau A106.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Fywyd yn Sir Benfro. Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu. Rheolwr Polisi Strategol. Rheolwr Rheoli Datblygu.



## Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir: Mae ein gwasanaethau a'n prosiectau wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd staff, Aelodau a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi, a bydd ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ddylunio, caffael a darparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.

### Pam yr Amcan hwn

- ✓ Er mwyn darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch, mae angen i staff, Aelodau a gwirfoddolwyr gael y wybodaeth, yr ymwybyddiaeth, y sgiliau a'r dulliau priodol.
- ✓ Mae cyflwyno'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a chreu strategaeth gysylltiedig yn gyfle i ni adolygu a gwella ein dulliau o weithredu ar gydraddoldeb a chaffael.
- ✓ Mae Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru yn nodi'r disgwyliadau o ran hygyrchedd y we, gan gynnwys bodloni'r gofynion o dan y Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol).

**Camau Gweithredu**

1. Integreiddio anghenion hyfforddi ar ddarparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol yn rhan o ddatblygu cynlluniau ehangach i hyfforddi staff, Aelodau a gwirfoddolwyr gan gynnwys dod o hyd i hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr perthnasol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

   **Amserlen:** 2025 - 2029 (Adolygiad blynyddol yn seiliedig ar ganlyniad adolygiadau lles a datblygu yn y gweithle.)

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

2. Gweithredu camau o fewn y Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol sy'n ategu'r amcan o wella arferion gwaith teg a chydraddoldeb a fabwysiadwyd gan gyflenwyr.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb/ Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Datgarboneiddio. Pennaeth Ariannol a Chodi Arian.

3. I gefnogi ystyriaethau 'Gwaith teg' a cheisio achrediad cyflog byw, rhoi cynllun ar waith i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i gontractwyr yr Awdurdod.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb/ Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol.

   **Amserlen:** 2025 - 2026

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl. Prif Weithredwr.

4. Gweithredu disgwyliadau Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru o ran hygyrchedd y we, gan gynnwys bodloni'r gofynion o dan y Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus 2018 (diwygiwyd 2022). Cynyddu nifer y dogfennau a gyhoeddir fel tudalennau HTML yn ddiofyn yn hytrach na ffeiliau PDF, nad ydynt mor hygyrch.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu. Arweinydd Tîm TG.

5. Sicrhau bod y broses ddiwygiedig o ddatblygu prosiectau ar gyfer adnoddau TG neu unrhyw gaffael gwefan/ap, yn ystyried gofynion cydymffurfio â hygyrchedd cynnwys y we.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Drawsnewid Digidol.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Datgarboneiddio. Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth.

6. Datblygu rhestr wirio prosiectau i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i sicrhau bod prosiectau a ddatblygir yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn ystyried rhwystrau posibl neu ystyriaethau cynrychiolaeth ehangach.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Lywodraethu a Gwneud Penderfyniadau.

   **Amserlen:** 2025 - 2026

   **Swyddogion Arweiniol:** Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth. Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

7. Ymrwymo i'r polisi dim goddefgarwch i hiliaeth a grëwyd gan Dim Hiliaeth Cymru. Mae pob sefydliad sy'n ymrwymo i'r polisi yn cytuno i gymryd safiad yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo gweithle a chymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal, sy'n rhoi'r hawl i bob unigolyn yng Nghymru deimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025

   **Swyddogion Arweiniol:** Prif Weithredwr.



## Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol

**Nod Tymor Hir: Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr dan 40 oed, sydd wedi cynyddu o 21% yn 2019/20 i 32% yn 2023/24. Cymerodd yr Awdurdod ran yn y Cynllun Kickstart ac roedd wedi datblygu swyddi dan hyfforddiant mewn Cynllunio ac Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, mae angen gwaith ehangach i edrych ar lwybrau at gyfleoedd cyflogaeth drwy ddatblygu sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd prentisiaeth.

- ✓ Mae tan-gynrychiolaeth ehangach ar gyfer rhai grwpiau o ran tirweddau dynodedig a sector yr amgylchedd yn effeithio ar y gronfa o ymgeiswyr posibl. Gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys darparwyr addysg, gallwn gefnogi'r sector i ddod yn gyflogwr deniadol o ddewis i bawb.

- ✓ Dylai ein harferion recriwtio ddilyn arferion gorau, gan gynnwys mynd i'r afael â materion megis rhagfarn ddiarwybod a'n bod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n hyderus o ran anabledd.

**Camau Gweithredu**

1. Parhau i fod yn sefydliad hyderus o ran anabledd, gan gynnwys gwneud cais am lefel 2 y cynllun a hyrwyddo ein cyfranogiad.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

2. Cynnal adolygiad cynhwysfawr o broses recriwtio a dethol yr Awdurdod i sicrhau tegwch o fewn y prosesau recriwtio, gan gynnwys edrych ar rwystrau posibl i ymgeiswyr iau neu'r rhai o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

3. Archwilio llwybrau newydd i gyfleoedd cyflogaeth drwy gyfleoedd datblygu sgiliau/ hyfforddiant/ prentisiaeth. Asesu dichonoldeb, gwneud cysylltiadau â darparwyr perthnasol a datblygu cynllun lle bo'n briodol.

**Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

**Amserlen:** 2025 -2029

**Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

4. Adolygu ein harlwy ar gyfer myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch gyda fframwaith yn ei le i gefnogi cyfleoedd ymchwil a cheisiadau am leoliadau myfyrwyr.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

5. Datblygu Cynllun Sefydliad a Gweithlu, i fabwysiadu ymagwedd strategol at gynllunio olyniaeth a chyfleoedd i ddatblygu mecanweithiau i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth yn ein gweithlu.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy’n gefnogol ac yn gynhwysol.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ I gael y gorau o'n gweithwyr mae angen diwylliant gweithle sy'n ddiogel ac yn gynhwysol i bawb. Mae straen, pryder, iselder yn parhau i fod yn brif achos absenoldeb o'r gweithle i'r Awdurdod, yn yr un modd â sefydliadau eraill. Gall pobl sydd â nodweddion gwarchodedig wynebu ystod o ffactorau ychwanegol all effeithio ar eu llesiant a’u profiad yn y gwaith.

- ✓ Mae rheolwyr llinell yn chwarae rhan hanfodol o ran meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol ac mae angen cymorth arnynt i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni hyn.

**Camau Gweithredu**

1. Cynnal adolygiad o'n holl weithgareddau llesiant a gweithio gyda chynrychiolwyr staff ac undeb i ddatblygu cynnig llesiant sy'n adlewyrchu arfer gorau cyfredol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

2. Parhau i adolygu polisïau Adnoddau Dynol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arfer gorau cyfredol o ran hyrwyddo arferion gweithle a recriwtio cynhwysol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

3. Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr llinell, a datblygu'r gyfres, i'w harfogi i reoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

4. Parhau i fonitro cydraddoldeb yn y gweithle ac mewn recriwtio, gan wella lefelau data a dadansoddi data a mynd i'r afael â bylchau data mewn meysydd megis hyfforddiant.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl. Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn wedi adolygu canlyniad yr adolygiad cyflogau a graddfeydd a'i ddadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac wedi datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb, os bydd angen.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Yn 2024/25, pan oedd y cynllun hwn yn cael ei adolygu, roedd yr Awdurdod yn cynnal adolygiad cyflogau a graddfeydd, ac roedd dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'w gynnal fel rhan o'r gwaith hwnnw. Yn dilyn canlyniad yr adolygiad hwn bydd angen i'r Awdurdod asesu, ac os oes angen, gweithredu cynllun gweithredu ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

**Camau Gweithredu**

1. Adolygu canlyniad yr adolygiad cyflogau a graddfeydd a'r dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb, os bydd angen.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 - 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

## Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

**Nod Tymor Hir: Bod ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod ac ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.**

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn yn creu cyfleoedd i'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein llywodraethiant a'n strwythurau ehangach i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau am y Parc ac am waith yr Awdurdod.

**Pam yr Amcan hwn**

- ✓ Mae'r Aelodau yn chwarae rhan ganolog wrth arwain gwaith yr Awdurdod a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y Parc. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ymgysylltu â rhaglenni cymorth a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol ac ym mhrosesau Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

- ✓ Mae barn y Genhedlaeth Nesaf yn bwysig i ni. Mae'r Genhedlaeth Nesaf a'r Pwyllgor Ieuenctid yn fecanwaith pwysig i bobl ifanc gael dweud eu dweud am y Parc ac am waith yr Awdurdod, gan gynnwys drwy eu gweithgareddau Maniffesto Ieuenctid.

- ✓ Mae ein Fforwm Gwirfoddolwyr yn gyfle i wirfoddolwyr o bob rhan o'r Awdurdod, gan gynnwys gwirfoddolwyr â chymorth, rannu, dysgu a dylanwadu hefyd ar waith ac ar arlwy'r Awdurdod i wirfoddolwyr.

**Camau Gweithredu**

1. Cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol ac ym mhrosesau Llywodraeth Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb. Tirweddau Dynodedig Cymru – Cynllun Gweithredu a Monitro Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Rhagoriaeth.

   **Amserlen:** 2025 -2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Prif Weithredwr. Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

2. Cyflawni rhaglenni'r Genhedlaeth Nesaf a'r Pwyllgor Ieuenctid. Gan gynnwys adolygiad parhaus a hyrwyddo Maniffesto Ieuenctid APCAP a chwyddo Llais Ieuenctid wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Parc Cenedlaethol a'r meysydd gweithredu â blaenoriaeth. gweithlu.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

**Amserlen:** 2025 - 2029

**Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Arweinydd y Tîm Dysgu a Chynhwysiant.

3. Cyflwyno Fforwm Gwirfoddolwyr sy'n amlygu amrywiaeth y gwirfoddolwyr.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

   **Amserlen:** 2025 -2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Swyddog Datblygu Gwirfoddoli.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, byddwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i Aelodau a Swyddogion i ystyried ystyriaethau cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau.

**Pam yr Amcan hwn**

✓ Gall cyfleoedd dysgu i'r Aelodau ategu mwy o graffu effeithiol ar waith yr Awdurdod ar faterion cydraddoldeb a chynhwysiant.

✓ Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'n prosesau asesu integredig yn rhoi cyfle i Aelodau'r Awdurdod a Swyddogion ystyried gwahanol safbwyntiau ac effeithiau polisïau a phenderfyniadau ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

**Camau Gweithredu**

1. Darparu cyfleoedd hyfforddi a dysgu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a chynhwysiant i'r Aelodau.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb. Tirweddau Dynodedig Cymru – Cynllun Gweithredu a Monitro Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Rhagoriaeth.

   **Amserlen:** 2025 -2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Pennaeth Gwasanaethau Pobl.

2. Parhau i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses Asesiadau Integredig i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar Aelodau ac Uwch Reolwyr i asesu effaith polisïau a phenderfyniadau ar nodweddion gwarchodedig. Fel rhan o'r broses hon, archwilio sut y gallwn ddefnyddio'r prosesau ehangach o ymgysylltu i gasglu safbwyntiau gwahanol i lywio'r asesiadau.

   **Cyflawni/ Monitro:** Monitro Sicrwydd Cydraddoldeb.

   **Amserlen:** 2025 -2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth.

**Amcan Cydraddoldeb:** Erbyn 2029, bydd gennym fecanweithiau ar waith i alluogi ystod eang o grwpiau a phobl i gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc.

**Pam yr Amcan hwn**

✓ Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu mecanweithiau i gefnogi sgwrs barhaus am y Parc, gan gynnwys cyfleoedd i gasglu safbwyntiau a phersbectif ehangach gan grwpiau y mae eu lleisiau yn cael eu tangynrychioli yn sector yr amgylchedd ehangach.

**Camau Gweithredu**

1. Datblygu rhaglen ymgysylltu â'r gymuned yn y gaeaf gan ddefnyddio fan gwybodaeth.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

   **Amserlen:** 2025 – 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant.

2. Darparu amrywiaeth o ffyrdd i gymryd rhan, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ystod o gyfleoedd gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

   **Amserlen:** 2025 – 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Swyddog Datblygu Gwirfoddoli.

3. Drwy ein gwaith ymgysylltu a phartneriaeth byddwn yn ceisio datblygu cyfleoedd i gasglu safbwyntiau a phersbectif ehangach gan grwpiau y mae eu lleisiau yn cael eu tangynrychioli yn sector yr amgylchedd ehangach. Yn arbennig o ran edrych ar feysydd megis Adfer Byd Natur a sicrhau Pontio Teg o ran Datgarboneiddio.

   **Cyflawni/ Monitro:** Cynllun Cyflawni ar Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc. Cynllun Cyflawni Adfer Byd Natur. Cynllun Cyflawni ar Ddatgarboneiddio.

   **Amserlen:** 2025 – 2029

   **Swyddogion Arweiniol:** Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant. Arweinydd y Tîm Dysgu a Chynhwysiant. Swyddog Iechyd a Llesiant.